OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 736 (Cy.88)

# GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

# PENSIYNAU, CYMRU

# Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (Cyfraniadau) (Diwygio) 2013

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (sydd wedi ei nodi yn Atodlen 2 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 (O.S. 1992/129)) ("y Cynllun") fel y mae'n cael effaith yng Nghymru.

Mae'r diwygiad yn darparu ar gyfer cyfraddau gwahanol o gyfraniadau pensiwn sy'n daladwy gan aelodau'r Cynllun sy'n cynyddu yn ôl swm y cyflog pensiynadwy y mae'r aelod yn ei dderbyn. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau yn y Tabl ym mharagraff 3 o Ran A1 o Atodlen 8 i'r Cynllun.

Yn ychwanegol, mae band newydd o gyflog pensiynadwy wedi ei greu fel y bydd y diffoddwyr tân hynny sy'n ennill mwy na £15,000 a hyd at £21,000, a chan gynnwys y swm hwnnw, yn talu cyfradd is na'r rheini sy'n ennill mwy na £21,000.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o ran costau a manteision tebygol cydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi gan y Gangen Tân a'r Lluoedd Arfog, Llywodraeth Cymru, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ neu drwy ffonio 0300 062 8254.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2013 No. 736 (W.88)

# FIRE AND RESCUE SERVICES, WALES

# PENSIONS, WALES

# The Firefighters' Pension (Wales) Scheme (Contributions) (Amendment) Order 2013

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order amends the Firefighters' Pension (Wales) Scheme (set out in Schedule 2 to the Firemen's Pension Scheme Order 1992 (S.I. 1992/129)) ("the Scheme") as it has effect in Wales.

The amendment provides different rates for pension contributions payable by members of the Scheme which increase according to the amount of pensionable pay which the member receives. The contribution rates are specified in the Table in paragraph 3 of Part A1 of Schedule 8 to the Scheme.

In addition, a new band of pensionable pay has been created so that those firefighters who earn more than £15,000 and up to and including £21,000 will pay a lower rate than those earning more than £21,000.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with this Order. A copy can be obtained from the Fire and Armed Forces Branch, Welsh Government, Rhydycar, Merthyr Tydfil, CF48 1UZ or by calling 0300 062 8254.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 736 (Cy.88)

# GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

# PENSIYNAU, CYMRU

## Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (Cyfraniadau) (Diwygio) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *26 Mawrth 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *27 Mawrth 2013* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 26(1) o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a Chychwyn**

**1**.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (Cyfraniadau) (Diwygio) 2013.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2013.

(**1**) 1947 p.41, a ddiddymwyd gan adran 52 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21) ac Atodlen 2 iddi. Mae is-adrannau (1) i (5) o adran 26 yn parhau i gael effaith, o ran Cymru, at ddibenion y cynllun a sefydlwyd o dan yr adran honno fel Cynllun Pensiwn y Dynion Tân ("Firemen's Pension Scheme") ac a nodir yng Ngorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 (O.S. 1992/129), gan erthygl 3 o O.S. 2004/2918 (Cy.257). Drwy erthygl 4 o'r offeryn hwnnw newidiwyd enw'r Cynllun i Gynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru). Diwygiwyd adran 26 o Ddeddf 1947 gan amryfal Ddeddfau ond nid yw'r diwygiadau hynny yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**2**) Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 26 o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947 bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru. Yr oeddent wedi eu breinio'n flaenorol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), *gweler* y cofnod ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947 yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), trosglwyddwyd hwy i Weinidogion Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2013 No. 736 (W.88)

# FIRE AND RESCUE SERVICES, WALES

# PENSIONS, WALES

## The Firefighters' Pension (Wales) Scheme (Contributions) (Amendment) Order 2013

| | |
|---|---|
| *Made* | *26 March 2013* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *27 March 2013* |
| *Coming into force* | *1 April 2013* |

The Welsh Ministers, in exercise of powers conferred upon the Secretary of State by section 26(1) of the Fire Services Act 1947(**1**) and now vested in them(**2**), make the following Order:

**Title and Commencement**

**1**.—(1) The title of this Order is the Firefighters' Pension (Wales) Scheme (Contributions) (Amendment) Order 2013.

(2) This Order comes into force on 1 April 2013.

(**1**) 1947 c.41, repealed by section 52 of, and Schedule 2 to, the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21). Subsections (1) to (5) of section 26 continue to have effect, in relation to Wales, for the purposes of the scheme established under that section as the Firemen's Pension Scheme and set out in the Firemen's Pension Scheme Order 1992 (S.I. 1992/129), by article 3 of S.I. 2004/2918 (W.257). By article 4 of that instrument the name of the Scheme was changed to the Firefighters' Pension (Wales) Scheme. Section 26 of the 1947 Act was amended by various Acts but those amendments are not relevant to this Order.

(**2**) The Secretary of State's functions under section 26 of the Fire Services Act 1947 are now vested in the Welsh Ministers so far as they are exercisable in relation to Wales. They were previously vested in the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), *see* entry for the Fire Services Act 1947 in Schedule 1 to that Order. By virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32), they were transferred to the Welsh Ministers.

**Diwygio Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992**

**2**. Mae Atodlen 2 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992(**1**) (lle y mae Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) wedi ei nodi), fel y mae'n cael effaith yng Nghymru, wedi ei diwygio yn unol ag erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn.

**3**. Yn lle'r Tabl ym mharagraff 3 o Ran A1 o Atodlen 8 rhodder y Tabl canlynol—

| *"Pensionable Pay* | *Contribution rate from 1 April 2013* |
|---|---|
| Up to and including £15,000 | 11.0% |
| More than £15,000 and up to and including £21,000 | 11.9% |
| More than £21,000 and up to and including £30,000 | 12.9% |
| More than £30,000 and up to and including £40,000 | 13.2% |
| More than £40,000 and up to and including £50,000 | 13.5% |
| More than £50,000 and up to and including £60,000 | 13.7% |
| More than £60,000 and up to and including £100,000 | 14.1% |
| More than £100,000 and up to and including £120,000 | 14.5% |
| More than £120,000 | 15.0%." |

**Amendment of the Firemen's Pension Scheme Order 1992**

**2**. Schedule 2 to the Firemen's Pension Scheme Order 1992(**1**) (in which the Firefighters' Pension (Wales) Scheme is set out), as it has effect in Wales, is amended in accordance with article 3 of this Order.

**3**. For the Table in paragraph 3 of Part A1 of Schedule 8 substitute the following Table—


| *"Pensionable Pay* | *Contribution rate from 1 April 2013* |
|---|---|
| Up to and including £15,000 | 11.0% |
| More than £15,000 and up to and including £21,000 | 11.9% |
| More than £21,000 and up to and including £30,000 | 12.9% |
| More than £30,000 and up to and including £40,000 | 13.2% |
| More than £40,000 and up to and including £50,000 | 13.5% |
| More than £50,000 and up to and including £60,000 | 13.7% |
| More than £60,000 and up to and including £100,000 | 14.1% |
| More than £100,000 and up to and including £120,000 | 14.5% |
| More than £120,000 | 15.0%." |


*Lesley Griffiths*

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, un o Weinidogion Cymru

26 Mawrth 2013

Minister for Local Government and Government Business, one of the Welsh Ministers

26 March 2013


©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013



Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.



© Crown copyright 2013



Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.


(**1**) O.S. 1992/129; a ddiwygiwyd gan 1997/2309 a 2851, a 1998/1010, 2001/3649 a 3691, 2004/1912 a 2918 (Cy.257), 2006/1672 (Cy.160), 2007/1074 (Cy.112), 2009/1226 (Cy.109), 2010/234 a 2012/974 (Cy.128).

(**1**) S.I. 1992/129; amended by 1997/2309 and 2851, and 1998/1010, 2001/3649 and 3691, 2004/1912 and 2918 (W.257), 2006/1672 (W.160), 2007/1074 (W.112), 2009/1226 (W.109), 2010/234 and 2012/974 (W.128).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 736 (Cy.88)

## GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

## PENSIYNAU, CYMRU

Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (Cyfraniadau) (Diwygio) 2013

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2013 No. 736 (W.88)

## FIRE AND RESCUE SERVICES, WALES

## PENSIONS, WALES

The Firefighters' Pension (Wales) Scheme (Contributions) (Amendment) Order 2013

£4.00

W1531/04/13 ON